# Grwynau mewn peirianneg arfordirol

# Rhaglen Ymchwil ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Dyddiad: Mawrth 2022
Prosiect: SC160016

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o brosiect SC160016, a adroddwyd mewn manylder yn yr allbwn / allbynnau canlynol:

Datblygodd y prosiect ganllaw newydd ar ddylunio, adeiladu, monitro, cynnal a datgomisiynu grwynau (neu argorau) main. Mae grwyn yn adeiledd hir a chul sy'n cael ei adeiladu allan i mewn i'r môr o'r traeth i gyfyngu ar faint mae defnyddiau traeth (tywod / graean bras) yn symud a chael eu colli.

Mae'r canllaw'n adeiladu ar gynnwys llawlyfr grwynau CIRIA o 1990 ac mae'n ategu dau ganllaw arall gan CIRIA: y Llawlyfr Rheoli Traethau a'r Llawlyfr Creigiau. Mae'n canolbwyntio ar ddulliau cynnal a chadw sy'n seiliedig ar arferion da, yn ogystal â pherfformiad deunyddiau cynaliadwy.

Mae'r canllaw wedi'i ysgrifennu gan arbenigwyr blaenllaw yn eu maes, gan gynnwys ymarferwyr, i sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb, o reolwyr arfordirol i'r rheini sy'n dylunio cyfresi o grwynau a'r rheini sy'n gwneud gwaith monitro a chynnal a chadw.

Mae'r canllaw'n ymdrin â materion ymarferol ar bynciau fel archwilio safleoedd, manylion dylunio, defnyddiau, gosodiadau, gan gynnwys edrych ar ffactorau fel dirywiad biolegol, cemegol a mecanyddol. Mae'n cynnwys lluniau, lluniadau ac astudiaethau achos i helpu defnyddwyr.

Mae'r canllaw'n cyflwyno datblygiadau newydd ac enghreifftiau o arfer da. Mae'r canllaw newydd ar gael am ddim ar wefan CIRIA, yn cynnwys gweminar sy'n egluro'r canllaw.

**Adroddiad:** SC160016/S
**Teitl:** Grwynau mewn peirianneg arfordirol.

**Rheolwr y prosiect:** Sue Manson, Ymchwil i Berygl Llifogydd

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth FCRM Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Gwefan: https://www.gov.uk/government/organisations/flood-and-coastal-erosion-risk-management-research-and-development-programme

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk.

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd